

Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion heddiw at Caron Evans (Henllan) yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Alderhey, a hefyd at Trebor Roberts (Llansannan) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Gobeithiwn y bydd y gofal da a gafodd y ddau yn arwain at adferiad iechyd buan iawn. Parhawn i gofio am Iorwen Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Llinos Hughes a Richard M. Jones (Cefn Berain) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn hwy, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd, i ofal Duw, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Gweddïwn eu bod oll yn profi nerth a chynhaliadaeth yr Arglwydd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r Parch. Aneurin Owen (Llansannan) sydd wedi cael ei ethol yn Ddarpar Lywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dymunwn fendith Duw arno wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau fydd yn cychwyn mis Gorffennaf 2023 ac yn para am 2 flynedd.

Medal Gee



- Llongyfarchiadau i'r saith o'r Ofalaeth a dderbyniodd y Fedal Gee yn ddiweddar. O'r chwith: Beryl Morris (Cefn Berain); Nesta Evans a Myra Davies (Saron); Heulwen Edwards a Meinir Jones (Groes); Lloyd Edwards a Gwynfor Jones (Groes).

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 18 Medi 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Fyth ers y cyhoeddiad am farwolaeth Brenhines Elisabeth yr wythnos diwethaf cafwyd teyrngedau lu iddi gan bobl ledled y byd. Cyfeiriodd llawer at ei ffydd Gristnogol, gan ddiolch iddi am ei pharodrwydd i roi mynegiant cyhoeddus i'r hyn oedd yn sylfaen bwysig i'w bywyd a'i gwasanaeth. Hyd yn oed ymhlith gwrthwynebwyr y frenhiniaeth mynegwyd cydymdeimlad gyda'i theulu, a pharch tuag ati fel gwraig urddasol a gymrodd ei dyletswyddau fel pennaeth y wladwriaeth o ddifrif.

Yng nghanol yr holl atgofion, tynnodd un rhan o deyrnged fy sylw yn arbennig. Coffâd o eiddo Emmanuel Macron, Arlywydd Ffrainc ydoedd, ble dywedodd fod gan Elisabeth le arbennig ym mywydau pobl oherwydd iddi fod yn bresenoldeb cyson ac arhosol. Mewn byd llawn newid lle mae arweinwyr gwleidyddol yn mynd ac yn dod (yn aml iawn y dyddiau hyn!), yn ôl Macron roedd rhywbeth oedd yn cynrychioli tragwyddoldeb yn perthyn i'r Frenhines – 'she represented a sense of eternity.' Ni allaf i na'm rhieni gofio amser pan nad oedd Elisabeth ar yr orsedd, ac felly gallaf ddeall pam y byddai pobl yn meddwl amdani fel rhywun fyddai yno am byth, ond mae'r wythnos ddiwethaf wedi amlygu realiti poenus marwolaeth i ni. Fel rhan o'r datganiad am farwolaeth y Frenhines cyhoeddwyd bod ei mab, Charles, bellach yn Frenin. Dyna'r broses gyfansoddiadol sydd rhaid ei dilyn, ond roedd hefyd mewn brawddeg gwta yn nodi nad yw Elisabeth, yn fwy nag unrhyw frenin neu frenhines ddaearol arall, yn teyrnasu'n dragwyddol.

Er mor anodd yw wynebu diwedd oes unrhyw un, nid yw'r Beibl yn ceisio osgoi'r pwnc. Cawn ein hatgoffa'n gyson fod y cryfaf ohonom yn feidrol, a dros dro fydd ein bodolaeth mewn byd syrthiedig: 'Y mae'r meidrol yn union fel anadl, a'i ddyddiau fel cysgod yn mynd heibio.' (Salm 144:4) Gallai geiriau fel yma'n hawdd ein harwain at anobaith, ond maent wedi'u cynnwys yn y Beibl sydd hefyd yn dweud fod yna Un tragwydd: 'Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.' (Salm 90:2)

A'r hyn sy'n gwneud Cristnogaeth y newyddion gorau erioed yw'r ffaith bod y Duw tragwyddol wedi gwisgo cnaud, ac o'i fawr gariad bod Iesu wedi wynebu a choncro marwolaeth ar ein rhan. Golyga buddugoliaeth y groes a'r bedd gwag y gall unrhyw un ohonom, boed o deulu cyffredin neu frenhinol, trwy ffydd yn Iesu Grist etifeddu bywyd tragwyddol. Cofiw'n addewid Iesu i'w braidd - 'Yr wyf fi'n rhoi bywyd tragwyddol iddynt; nid ânt byth i ddistryw, ac ni chaiff neb eu cipio hwy allan o'm llaw i.' (Ioan 10:28)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Medi 18^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac Oedfa Fedydd yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn pryd y bydd Arwyn a Sian Jones yn cyflwyno Elsi Beth i'w bedyddio. Rhodri fydd yn arwain yr oedfaon.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gydag Eryl Davies yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Medi 20^{fed}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Sul, Medi 25^{ain}

- **Bore Bro Aled** – Oedfa i holl deuluoedd y Fro yng Nghapel Henllan am 10.30. Croeso cynnes i bawb.
- **Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog** am 2:00.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Medi 27^{ain}

- **Cyfarfod Gweddi 'Gwreiddiau'** am 7:00 yr hwyr ar Zoom. (I ymuno, ewch i dudalen flaen www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Cyfarfod Gweddi'.)

Dydd Mercher, Medi 28^{ain}

- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7:00 yr hwyr pryd y bydd cyflwyniad i gynnwys y llawlyfr 'Eglwysi Dementia-gyfeillgar – Heulwen dan Gymylau' gan Mr John G. Davies, Dinbych.

Dydd Sadwrn, Hydref 1^{af}

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenor newydd am 3:00 y prynhawn, ac yna oedfa gyhoeddus am 6:00 yr hwyr pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth a'r blaenor newydd yn cael ei ordeinio.

Dydd Sul, Hydref 2^{il}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **Oedfa Diolchgarwch yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Eric Greene.
- **Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch yn Nantglyn** am 2:00 y prynhawn.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan** am 6:00 yr hwyr gyda Rhodri yn pregethu.

Rhaghysbysiad

- **Oedfa Diolchgarwch Capel Saron** nos Iau, Hydref 6^{ed} am 7:00 yr hwyr. Pregethir gan y Parch. John Owen.
- **Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch Capel Saron** bore Sul, Hydref 9^{fed} am 10:00 y bore.
- **'Teulu'** (Hydref 21^{ain}-22^{ain}) – Penwythnos yng Ngholeg y Bala i deuluoedd sy'n mabwysiadu a maethu. Cyfle i ymlacio, cymdeithasu, rhannu profiadau ac edrych ar Air Duw yng nghwmni Arfon Jones. Bydd y penwythnos yn cychwyn gyda swper nos Wener ac yn gorffen ar ôl swper nos Sadwrn. Bydd darpariaeth lawn i blant a phobl ifanc o bob oed. Llenwch y ffurflen yma i gofrestru: <https://forms.gle/JwaHsiqhsGb5Y72k8>. Y gost fydd: Oedolyn: £45 Plentyn: £20 Ail neu drydydd plentyn: £10 (plant dan 5 oed am ddim). Mae'r gost yn cynnwys swper nos Wener, gwely a brechwast, cinio a swper dydd Sadwrn.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (28^{ain}), os gwelwch yn dda.